Ffeithiau am...

Draenogod

Mae draenogod yn dod allan gyda'r nos gan amlaf, mae'n annhebygol y gwelwch nhw allan yn ystod y dydd. Maen nhw'n cysgu am oriau maith, mewn nythod o dan berthi neu lwyni trwchus, yn ystod y dydd.

Ffeithiau Diddorol

Cafodd y draenog ei enw am ei fod yn chwilio am fwyd yn y perthi, wrth rochian fel mochyn; dyna pam y gelwir ef yn ddraenog.

Mae ganddo ryw 5,000 o bigau drosto. Mae pob pigyn yn parhau am flwyddyn cyn iddo gwympo ymaith ac mae un newydd yn tyfu yn ei le.

Ym mhle maen nhw'n byw?

Gwelir draenogod mewn bron i bob ardal o'r DU, heblaw am rai o'r ynysoedd yn yr Alban. Nid oes llawer ohonynt yn byw mewn corsydd, fforestydd pinwydd na'r ucheldiroedd, lle mae'n anoddach i ddarganfod bwyd a mannau i nythu.

Mae'n well ganddynt gynefin llaith ac maent yn byw naill ai ar y ddaear neu dan ddaear. Maent yn barod i fyw ar dir fferm, mewn gerddi neu barciau hyd yn oed. Maent yn byw mewn nythod o dan berthi neu le bynnag bo digon o bryfed neu anifeiliaid di-asgwrn-cefn i'w bwyta.

ewch i twinkl.cymru

Hoff Fwyd

Mae iddo'r enw o fod yn 'ffrind pob garddwr' am fod y draenog yn dwli am fwyta nifer fawr o 'greaduriaid bach'. Maent yn hoff iawn o fwyta creaduriaid bach megis pryfed, mwydod, pryfed cantroed, malwod, llygod, brogaod a nadroedd.

Cadw'n Ddiogel

Mae gan y draenog nifer fawr o bigau miniog ar ei gefn, ac os oes rhywbeth yn codi ofn arno mae'n rholio'n belen fach. Mae draenog yn aml yn rholio'n belen fach i'w hamddiffyn ei hunain. Wrth iddo deimlo dan fygythiad, mae ei gyhyrau yn dechrau gweithio, sy'n golygu fod y pigau'n ymsythu. Hwn yw'r unig famal ym Mhrydain â phigau.

ewch i twinkl.cymru